Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

Cwrt Linden
Clos Ilex Llanisien
Cardiff CF14 5DZ
Ffon 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163
www.hefcw.ac.uk

hefcw

Cylchlythyr Circular

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru: Gweithdrefnau diwygiedig

Dyddiad: Mai 2008
Cyfeirnod: W08/17HE
At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: Ni ddisgwylir ymateb

Cyswllt:

Enw: Alison Allan
Ffôn: 029 2068 2223
E-bost: alison.allan@hefcw.ac.uk

Enw: Kate Stevenson
Ffôn: 029 2068 2285
E-bost: kate.stevenson@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn:

i) yn cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ar y gweithdrefnau diwygiedig drafft ar gyfer achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru;

ii) yn cadarnhau'r gweithdrefnau diwygiedig a ddaw i rym ar unwaith.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print mawr, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall ei chael mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2280 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cyflwyniad

1 Mae’r cylchlythyr hwn:

i) yn cyflwyno canlyniadau’r ymgynghoriad diweddar ar y gweithdrefnau diwygiedig drafft ar gyfer achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru;

ii) yn cadarnhau’r gweithdrefnau diwygiedig a ddaw i rym ar unwaith.

Cefndir

2 Daeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gyfrifol am achredu darparwyr HCA o dan Ddeddf Addysg 1994. Mae'r cyfrifoldeb hwn bellach yn cael ei gynnwys yn adran 145 o Ddeddf Addysg 2002. Mae gofyn i bob sefydliad sy'n darparu HCA yng Nghymru gael ei achredu gan CCAUC er mwyn gallu cynnal cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n caniatáu i'w myfyrwyr ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Dim ond athrawon cymwysedig (h.y. y rheiny â SAC) a phobl eraill o dan rai amgylchiadau a all wneud gwaith penodedig - hynny yw, addysgu - mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru.

3 Mae achrediad yn cael ei roi i'r sefydliad addysg uwch (SAU) ac mae'n cwmpasu'r holl gyrsiau HCA a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Er mwyn cael ei achredu, rhaid i sefydliad sy'n darparu HCA fodloni meini prawf a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4 Yn dilyn Deddf 1994, rhoddodd CCAUC weithdrefnau ar waith ar gyfer achredu darparwyr. Achredodd CCAUC yr holl ddarparwyr HCA presennol yng Nghymru rhwng 1995 a 1997. Mae Estyn, drwy wneud arolygiadau o ddarparwyr HCA, yn chwarae rhan bwysig yn y broses o ddarparu sicrwydd i CCAUC bod y darparwyr presennol yn parhau i gydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5 Mae'r gweithdrefnau hefyd yn ymdrin â thynnu achrediad yn ôl. Ar ôl ei roi, nid yw achrediad wedi'i gyfyngu gan amser, ond gall CCAUC ei dynnu'n ôl os oes tystiolaeth nad yw darpariaeth yn cydymffurfio â meini prawf cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae achrediad yn cael ei dynnu'n ôl o'r sefydliad, nid y cwrs penodol lle y darganfuwyd diffyg cydymffurfio.

6 Mae is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2006 yn darparu safonau SAC diwygiedig a meini prawf diwygiedig ar gyfer achredu HCA gan CCAUC, a daeth i rym ym mis Medi 2007. Ym mis Ionawr 2008 cyhoeddwyd gweithdrefnau diwygiedig drafft at bwrpas ymgynghori. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 20 Chwefror (Cylchlythyr W08/2HE).

Canlyniadau'r ymgynghoriad a newidiadau i'r gweithdrefnau

7 Cafwyd ymatebion gan chwe darparwr HCA. Hefyd cafwyd ymateb gan Swyddog o Addysg Uwch Cymru a luniwyd, yn ôl a ddeallwn, yn sgil trafodaethau ag aelodau UCET Cymru (Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysg Athrawon yng Nghymru). Dywedodd y seithfed darparwr HCA ei fod ef ac UCET Cymru yn cefnogi ymateb AUC. Roedd sefydliad a anfonodd ymateb ei hun hefyd yn cefnogi ymateb AUC. Gweler **Atodiad A** am grynodeb o'r ymatebion.

8 Cyflwynwyd gweithdrefnau diwygiedig i Gyngor CCAUC ym mis Mawrth 2008, gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gweler **Atodiad B** am y gweithdrefnau diwygiedig.

9 At ei gilydd roedd y rhai a ymatebodd o blaid y gweithdrefnau. Tynnodd rhai ohonynt sylw at feysydd lle'r oedd angen eglurhad yn eu barn hwy. Nodwn isod y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud yng ngoleuni'r pwyntiau hyn (mae'r rhifau paragraff yn cyfeirio at Atodiad B).

i) Paragraff 3.20 - Cynnwys cyfeiriad penodol at asesiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA/QAA) yn y gweithdrefnau ar gyfer achredu darparwyr newydd.
ii) Paragraff 3.24 - Gwybodaeth bellach ynghylch sut y bydd aelodau'r Panel Achredu yn cael eu dewis.
iii) Paragraff 3.26 - Eglurhad o sail yr adroddiad y byddai Estyn yn ei gyflwyno i'r Panel Achredu ar ôl derbyn cais gan ddarparwr newydd.
iv) Paragraff 5.7 - Eglurhad o statws adroddiad arolygu gan Estyn.
v) Paragraff 5.8 - Eglurhad o'r cydberthyniad rhwng graddau arolygu Estyn a diffyg cydymffurfio.
vi) Paragraffau 5.12 i 5.13 - Eglurhad o'r berthynas rhwng y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a fynnir gan CCAUC a'r cynllun ôl-arolygiad y mae Estyn yn gofyn amdano fel rhan o'i drefniadau arferol.
vii) Paragraff 5.16 - Mewn ymateb i bryder ynghylch goblygiadau diffyg cydymffurfio ar gyfer dwy garfan olynol o fyfyrwyr pe bai darparwr yn cael hyd at 18 mis i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfyddir, mae'r weithdrefn bellach yn ei gwneud hi'n gliriach mai'r cyfnod arferol ar gyfer sicrhau cydymffurfiad fydd 12 mis, ac y bydd 18 mis yn eithriad.
viii) Paragraffau 5.17 i 5.19 - Newidiadau i egluro sut y bydd CCAUC yn monitro cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun gweithredu.

10 Cafwyd rhai sylwadau eraill ond nid oeddem yn ystyried ei bod hi'n briodol i newid y gweithdrefnau drafft yn yr achosion hyn:

i) Mae'r gweithdrefnau'n darparu ar gyfer Panel Ailystyried i edrych eto, o dan rai amgylchiadau, ar benderfyniad gan y Cyngor i dynnu achrediad yn ôl oddi wrth ddarparwr oherwydd diffyg

cydymffurfio. Byddai'r aelodaeth yn cynnwys dau aelod o'r Cyngor, y byddai un ohonynt yn gadeirydd, ac aelod annibynnol. Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i'r panel gael mwy o annibyniaeth. Yn ei ymateb, awgrymodd Swyddog AUC y dylid cynnwys aelod annibynnol ychwanegol. Awgrymodd un arall y dylai fod gan aelodau annibynnol fwy o lais ac roedd un arall yn amheus o ddoethineb ymwneud CCAUC â'r drefn apelio, heb ragor o gynrychiolaeth annibynnol.

Sut bynnag, yn ein barn ni, gan fod y cyfrifoldeb statudol dros achredu darparwyr yn nwylo CCAUC, rhaid i aelodau'r Cyngor fod yn bennaf cyfrifol am wneud y penderfyniad. Mae'r aelod annibynnol yn sicrhau gwirio a safbwynt allanol. Mae hyn yn debyg i'r drefn yn yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA) yn Lloegr lle y mae tri aelod o'r Bwrdd ac un aelod annibynnol ar y panel.

ii) Mewn un ymateb awgrymwyd y dylem newid y sail ar gyfer ailystyried, oherwydd y gred y byddai penderfyniadau i bob pwrpas yn cael eu gwneud gan Estyn wrth arolygu'r ddarpariaeth. Credwn fod hyn efallai'n camddeall y sail ar gyfer ailystyried, sef y posibilrwydd bod CCAUC wedi methu â dilyn ei weithdrefnau ei hun neu fod gwybodaeth newydd wedi dod i law nad oedd ar gael i CCAUC pan wnaeth ei benderfyniad gwreiddiol. Nid yw'n adolygiad o farn Estyn nad yw darpariaeth yn cydymffurfio.

iii) Mae'r gweithdrefnau'n nodi y byddai CCAUC yn disgwyl tynnu achrediad yn ôl "os bydd darparwr yn penderfynu neu'n cytuno i beidio â darparu HCA am resymau heblaw am ddiffyg cydymffurfio" (paragraff 5.37). Cododd un ymatebwr amheuon am hyn, gan awgrymu ei fod yn briodol os yw'r penderfyniad yn un gwirfoddol, ond nid os yw'n deillio o benderfyniad gan CCAUC. O dan y fath amgylchiadau, roedd o'r farn y dylai achrediad gael ei atal am gyfnod penodol ac y dylai fod modd ei ailgychwyn pe bai galw o fewn rhanbarth daearyddol y sefydliad yn dangos bod angen cynyddu'r cyflenwad o athrawon.

Gwerthfawrogwn mai mater sensitif yw tynnu achrediad yn ôl gan ddarparwr HCA o dan yr amgylchiadau hyn. Ond pe bai'r sefydliad yn ystyried, rywbryd yn y dyfodol, fod dadl dros ailgyflwyno darpariaeth HCA, byddai angen iddo beth bynnag fodloni CCAUC y gallai gwrdd yn llawn â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA sydd mewn grym ar y pryd. Yn ein barn ni, ni ellir cyflawni hyn ond drwy gyflwyno cais am achrediad, gyda thystiolaeth, a fyddai'n cymryd i ystyriaeth brofiad blaenorol y sefydliad.

11 Gan gymryd i ystyriaeth ganlyniadau'r ymgynghoriad, cymeradwyodd y Cyngor y gweithdrefnau diwygiedig a gyflwynwyd iddynt (Atodiad B). Daw'r rhain i rym ar unwaith.

Materion eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

12 Codwyd dau fater pwysig arall yn ystod yr ymgynghoriad:

i) Ailgyflunio HCA

Mynegwyd syndod mewn rhai ymatebion fod y gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno ar adeg pan oedd HCA yn cael ei ail-gyflunio. Ond mae gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn golygu bod yn rhaid i ni gael gweithdrefnau diwygiedig yn eu lle er gwaethaf yr ail-gyflunio.

Roedd eraill yn pryderu nad oedd unrhyw gyfeirio at ail-gyflunio. Mae'r gweithdrefnau'n deillio o gyfrifoldeb statudol CCAUC i achredu sefydliadau fel darparwyr HCA. Gan nad yw ail-gyflunio HCA wedi'i gwblhau eto, nid oeddem yn ystyried ei bod hi'n briodol i gyfeirio at drefniadau mewn sector ailgyfluniedig ar yr adeg hon. Byddwn yn diwygio'r gweithdrefnau yn y dyfodol os oes angen.

Yn ymateb AUC, gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai achrediad yn cael ei dynnu'n ôl o'r ddau ddarparwr pe darganfyddid bod darpariaeth un o'r partneriaid yn methu.

Yn ein trafodaethau â sefydliadau ar ail-gyflunio, rydym wedi nodi:

- Gan fod CCAUC eisoes wedi achredu'r partneriaid yn yr ysgolion newydd fel darparwyr HCA, nid oes angen iddynt gael eu hailachredu o ganlyniad i'r ail-gyflunio.
- Fodd bynnag, fel "Ysgol" HCA, rydym o'r farn bod y ddau bartner yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio ar draws yr Ysgol ac am fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Pan fydd yr ail-gyflunio wedi'i gwblhau, bydd Estyn yn arolygu'r ddarpariaeth HCA ar sail yr Ysgol, nid y darparwr unigol. Felly bydd y canlyniadau'n berthnasol i'r Ysgol yn ei chyfanrwydd.
- Os darganfyddir, o ganlyniad i arolygiad gan Estyn, nad yw'r meini prawf ar gyfer HCA yn cael eu bodloni, yna, o dan y trefniadau statudol presennol ar gyfer achredu HCA mewn sefydliadau, bydd angen dilyn gweithdrefnau CCAUC mewn perthynas â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl ar gyfer y ddau sefydliad.

Cafodd y safbwynt hwn ei gefnogi'n gryf gan Gyngor CCAUC yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2008. Mae cydweithwyr yn Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau mai dyma sut y maent hwy'n deall y sefyllfa hefyd.

ii) Cyfrifoldeb dros achredu

Mewn un ymateb nodwyd y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW) fod yn gyfrifol am achredu darparwyr HCA, yn hytrach na CCAUC. Nododd ymatebwr arall ei fod yn gwybod bod y mater hwn wedi cael ei godi ond na fyddai'n ei gefnogi ar hyn o bryd. Hoffem nodi bod cyfrifoldeb statudol CCAUC dros achredu'n dod o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Goblygiadau o ran cydraddoldebau

13 Fel rhan o'n hymrwymiad i gwrdd â'r gwahanol ddyletswyddau cydraddoldeb, nododd y cylchlythyr ymgynghori ar y gweithdrefnau achredu diwygiedig y byddem yn croesawu derbyn sylwadau ar unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldebau o fewn y gweithdrefnau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol ar yr agweddau hyn.

14 Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi cwblhau ein sgrinio cydraddoldeb ac rydym o'r farn nad yw'r gweithdrefnau'n cael unrhyw effaith andwyol ar faterion cydraddoldeb. Rydym wedi pwysleisio yn y gweithdrefnau (2.4) mai cyfrifoldeb y sefydliadau yw sicrhau, wrth iddynt ddarparu HCA yn unol â'r meini prawf achredu, eu bod yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n cwrdd â'u cyfrifoldebau statudol i staff a myfyrwyr, ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

15 Nodwn hefyd fod gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA sy'n cael eu hadlewyrchu yn y gweithdrefnau achredu yn cynnwys:

"Dylai darparwyr ddangos bod ganddynt sail resymegol argyhoeddiadol ar gyfer darparu HCA sy'n:

- cynnal neu'n ychwanegu at yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael neu'n denu ceisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn y proffesiwn dysgu."

Cymerir hyn i ystyriaeth felly wrth asesu ceisiadau i CCAUC am achrediad ac wrth asesu a yw darpariaeth yn parhau i gydymffurfio.

Cyhoeddi

16 Yn ogystal ag yn y cylchlythyr hwn, fydd y gweithdrefnau diwygiedig, sydd bellach mewn grym, yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan CCAUC ar y tudalennau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Dylech gyfeirio at y wefan i sicrhau eich bod yn cael y fersiwn diweddaraf. Mae'r gweithdrefnau ar gael hefyd mewn print mawr, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall ei chael mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2280 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Atodiad A

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru: Gweithdrefnau diwygiedig

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Coleg y Drindod Caerfyrddin.

Cawsom ymateb gan Swyddog AUC hefyd.

Nid anfonodd Prifysgol Cymru, Casnewydd ac UCET Cymru ymatebion ar wahân, ond dywedasant wrthym eu bod yn cefnogi ymateb Swyddog AUC, fel yr oedd Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

Mae gan y gweithdrefnau achredu diwygiedig dair prif elfen:

- Achredu darparwyr newydd
- Cadarnhau bod y darparwyr presennol yn cydymffurfio
- Ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl

1 Roedd yr ymatebion yn dangos bod y darparwyr yn fodlon ar y gweithdrefnau diwygiedig ar y cyfan. Nododd un ymatebwr ei bod hi'n ymddangos eu bod yn diogelu buddiannau myfyrwyr yn dda.

2 *Achredu darparwyr newydd*

Roedd y sylwadau ar y gweithdrefnau ar gyfer achredu darparwyr newydd yn dangos eu bod yn cael eu hystyried yn rhai clir a phriodol a'u bod yn gallu darparu asesiad cadarn. Roedd un yn croesawu'r syniad o roi achrediad dros dro wedi'i ddilyn gan arolygiad gan Estyn yn ystod y flwyddyn gyntaf. Nododd un arall y dylid cymryd adroddiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i ystyriaeth hefyd.

Awgrymodd un ymatebwr y gellid rhoi sylw pellach i ddiffinio o ba gyrff y byddai aelodau allanol y panel achredu yn cael eu dewis ac y gellid bod yn fwy eglur ynghylch yr hyn y byddai Estyn yn edrych arno yn ei ymweliad cychwynnol a sut y byddai'n darparu tystiolaeth ar gyfer ei gasgliadau yn ei adroddiad i'r panel achredu.

3 *Cadarnhau bod y darparwyr presennol yn cydymffurfio*

At ei gilydd ystyriwyd bod y gweithdrefnau yn drylwyr, ymarferol a phriodol a chroesawyd y ffaith bod rôl allweddol Estyn yn parhau. Nododd un ymatebwr yr hoffai weld ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn y dyfodol i'r berthynas rhwng Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o ran darparu ymagwedd sicrhau ansawdd gyson at raglenni AU.

Ystyriwyd bod cysylltu cwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA yn fuddiol.

4 *Ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl*

Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfio, roedd nifer o sylwadau'n cyfeirio at feysydd lle'r oedd yr ymatebwyr yn ystyried bod angen mwy o eglurhad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb CCAUC ac Estyn dros y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio;
- Y berthynas rhwng y cynllun gweithredu diffyg cydymffurfio a'r cynllun gweithredu arferol y mae Estyn yn gofyn amdano yn dilyn arolygiad;
- Monitro cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun gweithredu;
- Statws adroddiadau drafft a therfynol Estyn;
- A ddylai unrhyw ddiffyg cydymffurfio fel mater o egwyddor arwain at radd 4 neu 5 o fewn fframwaith arolygu Estyn neu a allai fod enghreifftiau gweddol ddibwys o ddiffyg cydymffurfio na fyddent yn haeddu'r sgorau isaf.

Nododd dau ymatebwr eu bod yn ystyried bod yr amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn briodol gan y byddent yn rhoi cyfle i'r newidiadau angenrheidiol gael eu gwneud (12 mis yn ddelfrydol, gyda'r posibilrwydd o'i estyn i 18 mis). Roedd dau arall yn pryderu am y cyfnod hwy oherwydd y gallai olygu bod y diffyg cydymffurfio yn effeithio ar ddwy garfan o fyfyrwyr. Yn y cyd-destun hwn, nododd un fod yn rhaid i'r darparwr wneud cynnydd llwyddiannus er mwyn gallu parhau i gynnig cyrsiau a recriwtio'r garfan nesaf o fyfyrwyr.

Croesawyd y cyfle yr oedd y gweithdrefnau'n ei gynnig i sefydliadau ofyn i CCAUC ailystyried penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl ar sail diffyg cydymffurfio. Ystyriwyd bod y broses yn deg, agored a phriodol. Roedd un ymatebwr o'r farn na ddylai'r sail dros ailystyried fod yn gysylltiedig â gweithredoedd CCAUC yn unig gan ei fod yn ystyried y byddai penderfyniadau, i bob pwrpas, yn cael eu gwneud gan Estyn wrth arolygu'r ddarpariaeth.

Roedd rhai'n dymuno gweld mwy o gynrychiolwyr annibynnol ar y panel (y cynnig oedd y dylid cynnwys dau aelod o'r Cyngor, un ohonynt yn

gadeirydd, ac un aelod annibynnol). Awgrymwyd yn ymateb AUC y dylid cynnwys aelod annibynnol arall (yn y gadair o bosibl) i gael cydbwysedd ag aelodau'r Cyngor, ac awgrymodd ymatebwr arall y dylid cael dau aelod annibynnol ac un aelod o'r Cyngor ac y dylid egluro'r hyn yr oedd annibynnol yn ei olygu. Roedd un arall yn amau doethineb ymwneud CCAUC â'r drefn apelio a chredai y gellid ei chryfhau drwy sicrhau mwy o annibyniaeth.

Mynegodd un ymatebwr ei farn na ddylai achrediad sefydliad gael ei dynnu'n ôl pe bai'n rhoi'r gorau i ddarparu HCA nid o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio neu benderfyniad gwirfoddol ar ran y darparwr ond o ganlyniad i benderfyniad gan CCAUC. Yn hytrach, dylai gael ei atal rhag cynnig darpariaeth, a hynny am chwe blynedd o bosibl yn y lle cyntaf. Yna pe bai galw o fewn ei ranbarth daearyddol yn dangos bod angen cynyddu'r cyflenwad o athrawon, dylai'r sefydliad allu ailgychwyn ei ddarpariaeth heb orfod gwneud cais newydd am achrediad.

5 Pwyntiau eraill

Ailgyflunio HCA: Mynegwyd syndod mewn rhai ymatebion fod y gweithdrefnau diwygiedig yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod o ailgyflunio HCA. Nodwyd mewn ymatebion eraill y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i'r broses pan oedd y sector ailgyfluniedig wedi'i sefydlu a phan oedd Ysgolion HCA newydd yn gweithredu ar sail cydweithio rhwng dau SAU, a'r ddarpariaeth heb ei lleoli mewn un sefydliad o anghenraid. Gallai hyn gynnwys y ffordd y byddai Estyn yn arolygu darparwyr HCA yn y dyfodol.

Gofynnodd AUC am fwy o eglurhad ynghylch sut y byddai'r broses yn edrych ar ôl i'r broses ailgyflunio HCA gael ei chwblhau, yn enwedig mewn perthynas â thynnu achrediad yn ôl. Er iddi gael ar ddeall mai'r SAU fyddai'r darparwr achrededig o hyd ac nid yr Ysgol neu Ganolfan newydd, holodd beth fyddai'r sefyllfa pe bai'r ddarpariaeth a oedd yn cael ei chynnig gan un o'r SAUau yn y bartneriaeth yn methu, h.y., a fyddai statws achrededig yn cael ei dynnu'n ôl oddi wrth y ddau ddarparwr neu'r un a oedd yn "berchen" ar y ddarpariaeth a oedd yn methu.

Y Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP): Nododd dau ddarparwr y dylai'r rhaglen hon wynebu'r un gweithdrefnau cadarn â SAUau, a dywedodd un o'r darparwyr hyn yr hoffai weld y rhaglen yn cael ei gweithredu gan ddarparwr SAU achrededig.

Cyfrifoldeb dros Achredu: Mynegodd un ymatebwr ei ddymuniad y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru fod yn gyfrifol am achredu darparwyr HCA, yn hytrach na CCAUC. Nododd un arall ei fod yn gwybod bod y mater hwn wedi cael ei godi ond na fyddai'n ei gefnogi ar hyn o bryd.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru

Gweithdrefnau ar gyfer:

- Achredu darparwyr newydd
- Cadarnhau bod y darparwyr achrededig presennol yn cydymffurfio
- Ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl

Daw'r gweithdrefnau a gyflwynir yn y ddogfen hon i rym ar 1 Medi 2007 a byddant yn aros mewn grym hyd nes bod gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyflwyno. Maent hwy'n cymryd lle unrhyw weithdrefnau a gyhoeddwyd ynghynt.

Bydd y gweithdrefnau yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan CCAUC, ar y tudalennau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Mae'r gweithdrefnau hefyd ar gael mewn print mawr, Braille, ar CD, ar DAISY (sain ddigidol) ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall gael y ddogfen mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2280 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Meini prawf ar gyfer achredu	4
3	Achredu darparwyr newydd	7
4	Cadarnhau bod y darparwyr HCA achrededig presennol yn cydymffurfio	15
5	Ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl	16
Atodiad A	Llywodraeth Cynulliad Cymru: Y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon	24
Atodiad B	Achredu darparwyr newydd: Crynodeb o'r gweithdrefnau	28
Atodiad C	Cysylltu cwestiynau allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin (FAC) Estyn â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer achredu HCA	29
Atodiad D	Tynnu achrediad yn ôl: Crynodeb o'r gweithdrefnau	31

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru

1 Cyflwyniad

1.1 O dan adran 145 o Ddeddf Addysg 2002, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yng Nghymru.

1.2 Mae gofyn i bob sefydliad sy'n darparu HCA yng Nghymru gael ei achredu gan CCAUC er mwyn cynnal cyrsiau HCA, sy'n caniatáu i fyfyrwyr ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC).

1.3 Dim ond athrawon cymwysedig (h.y. y rheiny â SAC) a phobl eraill o dan rai amgylchiadau a all wneud gwaith penodedig - hynny yw, addysgu - mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Mae cyrsiau HCA yn galluogi pobl i ennill SAC. Mae gofyn i hyfforddeion sy'n dilyn cyrsiau HCA ddangos yn wrthrychol eu bod yn cwrdd â safonau penodol os ydynt am ennill SAC.

1.4 Mae is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2006 yn darparu safonau SAC diwygiedig a meini prawf diwygiedig ar gyfer achredu HCA gan CCAUC: Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006; Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Newidiad) 2006 ("deddfwriaeth y Gweinidogion Cymreig").[1]

---

[1] Is-Ddeddfwriaeth 2006:

Rhif 49: Addysg, Cymru: *Safonau Statws Athro Cymwysedig 2006*;
Rhif 50: Addysg, Cymru: *Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*;
Rhif 75: Addysg, Cymru: *Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Newidiad) 2006*. Gellir cyrchu'r ddeddfwriaeth hon drwy fynd i dudalen gartref prif wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru a chlicio ar y cysylltau canlynol: Deddfwriaeth / Deddfwriaeth mewn grym / Offerynnau Anstatudol / Addysg, Cymru / 2006"

Ceir arweiniad manwl ar y safonau SAC a'r gofynion ar gyfer cyrsiau HCA yng Nghylchlythyr Rhif: 41/2006 (Hydref 2006) Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Arweiniad*.
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/becoming-qualified-teacher2?lang=cy

1.5 Mae'r meini prawf diwygiedig yn cadarnhau bod yn rhaid i CCAUC achredu sefydliadau addysg uwch (SAUau) sy'n darparu cyrsiau HCA. Mae SAUau fel rheol yn cynnig cyrsiau HCA sydd wedi'u lleoli mewn Prifysgol neu goleg, neu gellir eu cynnig ar sail dysgu o bell. Mae'r cyrsiau'n gofyn am gyfnodau o brofiad yn yr ysgol. Darparwr achrededig yr hyfforddiant sy'n gyfrifol am reoli'r hyfforddiant ond mae'r ysgolion yn chwarae rhan mewn dewis, hyfforddi ac asesu'r hyfforddeion.

1.6 Er mwyn cael ei achredu gan CCAUC, rhaid i sefydliad sy'n darparu HCA gwrdd â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer achredu a nodir yn neddfwriaeth y Gweinidogion Cymreig.

1.7 Mae achrediad yn cael ei roi i'r sefydliad ac mae'n cwmpasu'r holl gyrsiau HCA a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Ar ôl ei roi, nid yw achrediad wedi'i gyfyngu gan amser ond gall CCAUC ei dynnu'n ôl os oes tystiolaeth nad yw'n cydymffurfio â meini prawf cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd CCAUC hefyd yn disgwyl tynnu achrediad yn ôl os bydd darparwr yn rhoi'r gorau i gynnal ei holl gyrsiau HCA.

1.8 Mae deddfwriaeth y Gweinidogion Cymreig yn nodi y dylai CCAUC, wrth benderfynu a yw'n fodlon bod y sefydliadau wedi bodloni neu'n parhau i fodloni'r meini prawf ar gyfer achrediad, gymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth berthnasol a gyflwynir iddo gan Estyn (Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru). Mae'r modd y mae Estyn yn galluogi CCAUC i wneud hyn yn cael ei nodi mewn lleoedd priodol yn y ddogfen hon.

1.9 Nid yw CCAUC yn gyfrifol am achredu'r HCA a ddarperir drwy gynlluniau hyfforddiant athrawon Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n seiliedig ar gyflogaeth (er enghraifft, y Rhaglen Athrawon Graddedig).

1.10 Seilir y gweithdrefnau a gyflwynir yn y ddogfen hon ar ofynion presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru a threfniadau presennol Estyn ar gyfer arolygu darparwyr HCA. Bydd CCAUC yn diwygio'r gweithdrefnau achredu yn ôl y gofyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Estyn.

2 Meini prawf ar gyfer achredu

2.1 Mae deddfwriaeth y Gweinidogion Cymreig yn gosod egwyddorion cyffredin a ddefnyddir i benderfynu ar feini prawf achredu penodol. Er mwyn achredu sefydliad fel darparwr HCA, neu i fod yn sicr y dylid parhau i achredu sefydliad, rhaid i CCAUC fod yn fodlon bod darpar ddarparwyr a darparwyr presennol yn cwrdd â'r meini prawf achredu a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Egwyddorion

2.2 Mae'n rhaid i CCAUC fod yn sicr bod:

a) yr hyfforddiant yn diwallu (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o ddiwallu) yr holl ofynion ar gyfer cyrsiau HCA;

b) bod yr hyfforddiant yn sicrhau (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o sicrhau) bod hyfforddeion yn cwrdd â'r safonau ar gyfer SAC;

c) bod yr hyfforddiant o ansawdd uchel (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o fod o ansawdd uchel);

d) bod y ddarpariaeth yn golygu (neu fod y ddarpariaeth arfaethedig yn debygol o olygu) defnydd effeithlon o'i adnoddau, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau darpariaeth HCA o ansawdd uchel;

e) y bydd y darparwr wedi sefydlu cyfundrefn effeithiol o reoli ansawdd;

f) bod y trefniadau a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn dangos bod y darparwr yn debygol o allu sicrhau gwelliant parhaus yn y blynyddoedd sydd i ddod;

g) y bydd gweithdrefnau a chyfundrefnau rheolaeth ariannol yn sicrhau defnydd priodol o'r cyllid a dderbynnir oddi wrth CCAUC.

Sylwer: Nid yw cael achrediad yn gwarantu y bydd CCAUC yn cyllido sefydliadau achrededig neu gyrsiau penodol; nid yw'n gwarantu chwaith y bydd niferoedd myfyrwyr yn cael eu dyrannu i gwrs astudio.

Meini Prawf

2.3 Mae'n rhaid i CCAUC fod yn fodlon bod y sefydliadau yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

(I) Eu bod yn diwallu'n llawn (neu y byddant yn diwallu'n llawn) y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau HCA fel y'u nodwyd yn **Atodiad A**, yn arbennig:

(a) bod hyfforddeion yn diwallu'r gofynion i gael mynediad i gwrs HCA a nodir yn R1;

(b) bod holl agweddau'r hyfforddi a'r asesu yn diwallu'r gofynion a nodir yn R2;

(c) bod yr hyfforddiant yn seiliedig ar bartneriaeth gref gydag ysgolion;

(d) bod yr holl ofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a nodir yn R4 yn cael eu diwallu.

(II) Eu bod yn cynnig (neu y byddant yn cynnig) hyfforddiant a fydd yn galluogi myfyrwyr i gyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer SAC, yn arbennig:

(a) bod cynnwys y rhaglen hyfforddi yn cyfateb yn agos â'r safonau gofynnol ar gyfer SAC; a

(b) bod myfyrwyr yn cael eu hasesu'n drwyadl yn erbyn pob un o'r safonau gofynnol ar gyfer SAC.

(III) Eu bod yn darparu (neu y byddant yn darparu) hyfforddiant o ansawdd uchel ac yn sicrhau gwelliant parhaus drwy ddangos:

(a) bod arbenigedd wedi'i brofi mewn HCA ymhlith yr ysgolion a fydd yn gysylltiedig;

(b) bod pawb sy'n gysylltiedig yn gwbl ymroddedig i hyfforddiant o ansawdd uchel;

(c) bod pob agwedd o'r rhaglen hyfforddi yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn drwyadl; a

(d) bod canlyniadau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio'n systematig er mwyn sicrhau gwelliannau.

(IV) Eu bod yn dangos sail resymegol sy'n argyhoeddi ar gyfer darparu HCA sy'n:

(a) diwallu angen a ddynodir (gan roi ystyriaeth i amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA mewn ardal ddaearyddol ar gyfer ystod(au) oed arbennig a/neu bwnc/pynciau arbennig; a/neu

(b) diwallu angen a ddynodir (gan roi ystyriaeth i amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA ar gyfer pynciau arbennig neu arbenigedd oed/cyfnod; a/neu'n

(c) cefnogi neu'n ychwanegu at yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael neu'n denu ceisiadau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y proffesiwn dysgu.

(V) Eu bod yn dangos strwythur rheoli a fydd yn sicrhau gweithrediad llyfn y rhaglen hyfforddi, yn arbennig:

(a) bod rolau unigolion a swyddogaethau grwpiau a phwyllgorau yn cael eu diffinio'n glir ar hyd a lled y bartneriaeth hyfforddi;

(b) y dewisir staff sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol;

(c) bod cynlluniau datblygu staff ar gyfer pawb sy'n cyfrannu i'r hyfforddiant; a

(d) bod gan fyfyrwyr ystafelloedd, cyfleusterau ac adnoddau addas.

(VI) Eu bod yn hyfyw yn ariannol (neu'n gallu dangos y byddant yn hyfyw yn ariannol) a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau manwl ar gyfer rheolaeth ariannol, yn arbennig:

(a) bod darpariaethau ar gyfer rheoli cyllid yn gadarn ac yn effeithlon;

(b) bod cyfrifoldebau ar gyfer gwahanol swyddogaethau wedi'u nodi, gyda llinellau atebolrwydd clir; a

(c) bod gweithdrefnau'n sicrhau y ceir gwerth gorau o ran gwario cyllid CCAUC.

Cydraddoldebau

2.4 Byddem yn pwysleisio, o fewn cyd-destun y gofynion ar gyfer HCA a chydymffurfiad â'r meini prawf achredu, y dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn darparu, neu y byddant yn darparu, HCA mewn ffordd sy'n cwrdd â'u cyfrifoldebau statudol i staff a myfyrwyr o dan y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, gan ddileu gwahaniaethu ac ymdrechu i hyrwyddo cydraddoldeb. Byddem yn disgwyl cael sicrwydd o hyn mewn unrhyw gais ar gyfer achrediad, yn ogystal ag mewn perthynas â'r HCA sy'n cael ei ddarparu eisoes gan y darparwyr achrededig presennol.

3 Achredu darparwyr newydd

Mynegi diddordeb

3.1 Dylai unrhyw SAU nad yw'n darparu HCA ar hyn bryd ac sydd â diddordeb mewn cynnig HCA gysylltu â swyddogion CCAUC i gael trafodaeth gychwynnol a mynegi diddordeb.

Cynnig amlinell

3.2 Os yw'r sefydliad yn dymuno bwrw ymlaen ar ôl y drafodaeth gychwynnol â swyddogion CCAUC, dylai Pennaeth y sefydliad gyflwyno cynnig amlinell (2 dudalen o bapur A4 ar y mwyaf).

Dylai hyn nodi:

- y rhesymau pam y mae'r sefydliad yn dymuno darparu HCA, gan gynnwys sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â chenhadaeth a gweledigaeth strategol y sefydliad;

- y sail resymegol dros y ddarpariaeth sy'n dangos bod anghenion i'w diwallu, fel y nodir ym Maen Prawf IV, nad yw'r sefydliad yn ystyried eu bod yn cael eu diwallu gan ddarparwyr HCA eraill yng Nghymru;

- yr ystod oed ac, yn achos HCA uwchradd, y pynciau ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig a nifer yr hyfforddeion a ragwelir;

- profiad neu arbenigedd perthnasol mewn disgyblaethau sy'n gysylltiedig ag addysg neu ddisgyblaethau perthnasol eraill.

3.3 Bydd swyddogion CCAUC yn darparu adborth ar y cynnig amlinell o fewn pedair wythnos ar ôl ei dderbyn.

Cais llawn

3.4 Ar ôl derbyn adborth ar ei gynnig amlinell, dylai'r sefydliad, os yw'n dymuno bwrw ymlaen, gyflwyno cais llawn am achrediad fel y nodir isod.

3.5 Dylai'r cais am achrediad fel darparwr HCA ddeillio o reolwyr y sefydliad ac nid o'r lefel adrannol. Rhaid i'r ymrwymiadau a'r sicrwydd a roddir yn y cyflwyniad ddod ag awdurdod llawn corff llywodraethu'r sefydliad.

3.6 Os yw cais sefydliad am achrediad yn llwyddiannus, ni fyddid yn rhoi achrediad llawn iddo ar unwaith. Yn ôl deddfwriaeth y Gweinidogion Cymreig, rhaid i CCAUC fod yn fodlon bod y sefydliad wedi cwrdd â'r meini prawf achredu gofynnol. Byddid yn rhoi achrediad dros dro a byddai tystiolaeth bod y sefydliad wedi bodloni'r meini prawf yn ymarferol yn cael ei darparu drwy arolygiad wedi'i gynnal gan Estyn o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl dechrau cynnig y ddarpariaeth. Eglurir hyn yn fanylach isod.

3.7 Dylai'r sefydliad gyflwyno dogfennau o dan y penawdau safonol (gweler paragraffau 3.9 i 3.23 isod) i CCAUC erbyn amser y cytunwyd arno gyda swyddogion CCAUC. Awgrymwn na ddylai hyn fod yn fwy na 15 tudalen o bapur A4, heb gynnwys atodiadau a dogfennau ategol (maint y ffont i fod yn 12 pwynt o leiaf). Dylid anfon llythyr byr gyda'r cais oddi wrth Bennaeth y sefydliad, sydd hefyd yn dwyn llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu.

3.8 Ym mhob cam o'r broses, y darparwr HCA sy'n gyfrifol am ddangos i CCAUC ac eraill bod y ddarpariaeth HCA yn cwrdd (neu y bydd yn cwrdd) â meini prawf achredu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi nodi o fewn y penawdau safonol isod y meini prawf y maent hwy'n berthnasol iddynt. Sut bynnag, dylai'r sefydliad fod yn fodlon fod ei gais wedi ymdrin â'r holl feini prawf yn drwyadl. Dylai ymgeiswyr hefyd gyfeirio at Gylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 41/2006 *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Arweiniad.*

3.9 Y penawdau safonol yw:

A Cyrsiau SAC a gynigir

3.10 Dylai'r cais amlinellu'r rhaglenni SAC y byddai'r sefydliad yn eu cynnig i ddechrau, e.e:

- cyrsiau a gynigir yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas ag ymdrin â'r Cyfnodau Allweddol;
- pynciau, os yw darpariaeth uwchradd yn cael ei chynnig;
- ar y lefel israddedig neu ôl-raddedig;
- a fyddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- y targedau recriwtio cychwynnol y byddai'r sefydliad yn eu gosod ar gyfer pob cyfnod a lefel, gan gynnwys pynciau uwchradd unigol;
- yn amodol ar ennill achrediad ac argaeledd targedau recriwtio, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth;
- modd astudio, gan gynnwys a fydd y ddarpariaeth yn amser-llawn, yn rhan amser a/neu'n cael ei dysgu o bell.

3.11 Dylai'r cais nodi unrhyw fwriadau portffolio tymor hir hefyd.

3.12 Dylai'r wybodaeth yn y fan hyn fod yn gryno - bydd cyfle i ddisgrifio'r ddarpariaeth o dan "Disgrifiad o'r ddarpariaeth" isod.

B Sail resymegol ar gyfer darparu HCA (Maen prawf IV)

3.13 Dylai'r cais:

a) rhoi'r rhesymau pam y mae'r sefydliad yn dymuno cynnig HCA.

b) dangos sail resymegol sy'n argyhoeddi ar gyfer darparu HCA yn y sefydliad:
   - o ran diwallu angen a ddynodir am leoedd HCA:
   - mewn ardal ddaearyddol, ar gyfer ystod(au) oed a/neu bwnc/pynciau arbennig; a/neu
   - ar gyfer pynciau neu arbenigeddau oed/cyfnod arbennig; a/neu
   - o ran cefnogi neu ychwanegu at yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael, neu
   - o ran denu ceisiadau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y proffesiwn dysgu;

c) nodi'r ymchwil a wnaed i ddangos bod galw am y ddarpariaeth HCA newydd a bod galw am athrawon newydd gymhwyso y byddai'r ddarpariaeth yn cwrdd â hi;

d) nodi, wrth gyflwyno ei achos dros ddarpariaeth HCA, sut y mae amcangyfrif Llywodraeth Cynulliad Cymru o nifer y lleoedd hyfforddi

HCA sydd eu hangen wedi cael ei gymryd i ystyriaeth gan y sefydliad;

e) egluro pam y mae'r sefydliad yn ystyried ei fod mewn sefyllfa arbennig o dda i gynnig y ddarpariaeth dan sylw, er enghraifft, o ran y modd y mae'n cyd-fynd â'i genhadaeth a'i weledigaeth strategol, lleoliad, profiad perthnasol o ddarpariaeth neu weithgareddau'n gysylltiedig ag addysg neu o ddarpariaeth neu weithgareddau perthnasol eraill;

f) nodi'r hyn a fyddai'n wahanol rhwng y ddarpariaeth newydd hon a darpariaeth y darparwyr HCA presennol a pham y byddai'r ymgeisydd, yn hytrach na'r darparwyr presennol, yn gallu diwallu'r anghenion a ddynodir.

C Recriwtio hyfforddeion (Maen prawf Ia)

3.14 Dylai'r cais nodi:

a) cynlluniau ar gyfer recriwtio hyfforddeion, gan gynnwys marchnata'r ddarpariaeth;

b) meini prawf a gweithdrefnau dewis priodol a fydd yn galluogi'r sefydliad i gwrdd â gofynion mynediad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA.

D Disgrifiad o'r ddarpariaeth (Meini prawf Ib, IIa, IV)

3.15 Dylai'r cais:

a) nodi strwythur, cynnwys, a'r modd y cyflwynir pob cwrs, gan ddangos sut y mae wedi'i gyplysu â'r safonau SAC a sut y bydd yn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod hwy wedi cwrdd â'r safonau;

b) nodi sut y bydd y sefydliad yn sicrhau bod y cwrs yn diwallu'r anghenion hyfforddi eraill a nodir ym Maen Prawf 1b;

c) dangos sut y mae'r cwrs yn adlewyrchu sail resymegol y sefydliad ar gyfer cynnig HCA (gweler 3.13);

d) nodi cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y cwrs, gan gynnwys pa ffurf y byddai hyn yn ei chymryd a pha gyfran o'r cwrs;

e) dangos y bydd y targedau recriwtio a geisir ar gyfer pob cwrs yn gyfwerth â grŵp sy'n addysgol hyfyw;

f) nodi unrhyw waith datblygu pellach sydd ei angen, gan gynnwys dilysu darpariaeth, ac amserlen ar gyfer ymgymryd â hyn.

E Trefniadau partneriaeth cynlluniedig ag ysgolion (Meini prawf Ic, II, III)

3.16 Dylai'r cais:

a) cynnwys gwybodaeth am yr ysgolion a fu'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar bartneriaeth;

b) nodi sut y bydd y partner ysgolion yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno HCA, dewis athrawon dan hyfforddiant, ac asesu athrawon ar gyfer SAC;

c) cynnwys gwybodaeth am y cytundeb partneriaeth arfaethedig ac am weithrediad y bartneriaeth (e.e. meini prawf ar gyfer dewis a dad-ddewis partner ysgolion a mentoriaid, strwythur rheoli a chyfrifoldebau'r partneriaid, arweiniad a hyfforddiant ar gyfer mentoriaid mewn partner ysgolion, gweithdrefnau ar gyfer penderfynu sut y dyrennir adnoddau rhwng y partneriaid);

d) dangos sut y bydd y sefydliad yn sicrhau cydlyniad a chysondeb ar draws y bartneriaeth, yn enwedig yn nhermau'r hyfforddiant sy'n cael ei roi a sicrhau a gwella ansawdd.

F Asesu hyfforddeion (Meini prawf Ib, IIb)

3.17 Dylai'r cais nodi sut y bydd y sefydliad yn:

a) sicrhau bod cyflawniad athrawon dan hyfforddiant yn erbyn y safonau SAC yn cael ei asesu'n rheolaidd a thrwyadl;

b) sicrhau bod asesu'n gyson ar draws yr holl agweddau ar hyfforddiant ac mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys rhwng y sefydliad a phartner ysgolion a rhwng partner ysgolion;

c) ei sicrhau ei hun bod athrawon dan hyfforddiant wedi cael eu hasesu a'u bod wedi cwrdd â'r holl safonau SAC;

d) cynnwys rhai enghreifftiau eglurhaol.

G Sicrhau ansawdd a chydymffurfiad (Meini prawf Id, 3)

3.18 Mae CCAUC yn achredu'r sefydliad addysg uwch fel darparwr HCA, nid yr adran dan sylw na chyrsiau unigol. Bydd CCAUC felly yn disgwyl gweld bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol yn eu lle yn y sefydliad a fydd yn llywio arferion rheoli a chyflwyno HCA ac a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA a safonau SAC. Mae hyn yn cynnwys y gofynion a disgwyliadau penodol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd mewn HCA. Rhaid bod perthynas effeithiol rhwng sicrhau ansawdd ar lefel y cwrs a systemau sefydliadol.

3.19 Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, dylai'r cais ddarparu gwybodaeth am:

a) trefniadau sicrhau ansawdd y sefydliad, gan gynnwys gweithdrefnau ac amserlenni adolygu a dilysu rhaglenni;

b) sut y bydd y trefniadau sydd yn eu lle, neu a roddir yn eu lle, yn sicrhau y bydd:
   - y ddarpariaeth yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru;
   - unrhyw ddyfarniadau newydd neu ddyfarniadau sy'n cael eu haddasu yn y dyfodol yn cydymffurfio;
   - unrhyw newidiadau i feini prawf achredu Llywodraeth Cynulliad Cymru a safonau SAC yn cael eu cymryd i ystyriaeth;

c) sut y mae prosesau sicrhau ansawdd HCA sefydliadol ac adrannol yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd â'r gofynion, er enghraifft, drwy weithdrefnau safoni, monitro, gwerthuso a meincnodi, a sut yr eir i'r afael â materion sy'n codi ac y ceisir gwelliant parhaus.

3.20 Mae'n bosibl y bydd sefydliadau'n dymuno cyflwyno dogfennau ychwanegol eraill fel atodiadau er mwyn egluro natur ac effeithiolrwydd systemau, er enghraifft, llawlyfrau sicrhau ansawdd, trefniadau dilysu/adolygu enghreifftiol ar gyfer rhaglenni HCA neu raglenni cytras, adroddiadau arholwyr allanol. Byddem yn disgwyl gweld cyfeiriadau at ganlyniadau unrhyw asesiadau diweddar gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

H Ystafelloedd, cyfleusterau ac adnoddau (Meini prawf Id, Vd)

3.21 Dylai'r cais ddarparu gwybodaeth am:

a) yr ystafelloedd a ddarperir ar gyfer y ddarpariaeth HCA;

b) y cyfleusterau ac adnoddau a fydd ar gael i'r hyfforddeion, gan gynnwys cyfleusterau llyfrgell, adnoddau TGCh, adnoddau dysgu ac addysgu, ac ati;

c) sut y bydd yr adnoddau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cael eu gwella'n barhaus.

I Rheolaeth a staffio (Meini prawf IIIb, Va,b,c)

3.22 Dylai'r cais ddarparu gwybodaeth am:

a) y strwythur rheoli, gan gynnwys dangos y berthynas rhwng uwch reolwyr y sefydliad a'r adran HCA ac mewn perthynas â'r bartneriaeth ag ysgolion;

b) y proffil staffio ac adnoddau;

c) rolau unigolion, a swyddogaethau grwpiau ac unigolion;

d) y gweithdrefnau ar gyfer dewis staff;
e) y gweithdrefnau ar gyfer darganfod anghenion datblygu'r holl staff sy'n cyfrannu at yr hyfforddiant a sicrhau bod yr anghenion datblygu hyn yn cael eu diwallu.

J Rheolaeth ariannol (Maen prawf 6)

3.23 Dylai'r cais ddarparu:
a) tystiolaeth y bydd y ddarpariaeth arfaethedig yn hyfyw yn ariannol, er enghraifft:
- amcangyfrif o incwm a gwariant dros gyfnod o bum mlynedd, o dan benawdau priodol;
- y niferoedd lleiaf o gofrestriadau sydd eu hangen i wneud y ddarpariaeth yn gynaliadwy;

b) manylion y darpariaethau ar gyfer rheolaeth ac atebolrwydd ariannol yn unol â memorandwm ariannol CCAUC gyda'r sefydliad a Chôd Ymarfer Archwilio CCAUC;
c) gwybodaeth ynghylch sut y bydd y sefydliad yn sicrhau'r gwerth gorau am arian, gan gynnwys unrhyw gyllid a all gael ei ddyrannu gan CCAUC. Gall hyn dynnu ar enghreifftiau ar gyfer disgyblaethau cytras neu weithgaredd yn y sefydliad a allai hefyd gael ei gymhwyso at HCA.

Sylwer: gall yr amcangyfrif o incwm gynnwys cyllid CCAUC ar gyfer HCA, yn ogystal ag adnoddau eraill y bydd y sefydliad yn eu clustnodi ar gyfer y ddarpariaeth. Ond, fel y nodwyd uchod, nid yw rhoi achrediad yn gwarantu y bydd CCAUC yn dyrannu targedau recriwtio na'r cyllid cysylltiedig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddull cyllido addysgu CCAUC ar ei wefan: www.hefcw.ac.uk.

Panel Achredu

3.24 Bydd CCAUC yn sefydlu Panel i ystyried ceisiadau. Bydd y panel yn adrodd i Gyngor CCAUC. Bydd y Panel yn cynnwys aelod o'r Cyngor (cadeirydd) a hyd at bedwar aelod allanol. Bydd aelodau'r Panel yn cael eu dewis i ddarparu amrywiaeth o arbenigedd priodol ar draws y sector addysg. Sicrheir bod y Panel, drwy ei aelodaeth, yn deall materion yn ymwneud â sicrhau ansawdd a gweithrediad HCA mewn addysg uwch ac, yn fwy penodol, ei fod yn gallu ystyried anghenion penodol y 'Cwricwlwm Cymreig' (agweddau ar y cwricwlwm sy'n benodol i Gymru), y dimensiwn Cymreig mewn HCA yn gyffredinol, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd

cynrychiolydd o Estyn yn sylwedydd. Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan swyddogion CCAUC.

3.25 Bydd y Panel yn ystyried y cais yn erbyn pob un o feini prawf achredu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig gan swyddogion CCAUC, a fydd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau'r cais am achrediad yn erbyn y meini prawf.

3.26 Bydd y Panel hefyd yn derbyn adroddiad gan Estyn. Bydd adroddiad Estyn wedi'i seilio ar ei archwiliad o'r cais ac ymweliad â'r sefydliad a fydd yn para am un neu ddau ddiwrnod. Bydd Estyn yn cysylltu â'r sefydliad i drefnu'r ymweliad a gynhelir o fewn chwe wythnos ar ôl derbyn y cais erbyn yr amser y cytunwyd arno. Yn ei adroddiad, wedi'i seilio ar ei ystyriaeth o'r cais a'i ymweliad â'r sefydliad, bydd Estyn yn rhoi ei farn ynghylch a fydd y ddarpariaeth HCA arfaethedig yn galluogi myfyrwyr i gwrdd â'r safonau ar gyfer SAC ac yn galluogi'r sefydliad i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA.

3.27 Bydd CCAUC yn anfon copi o'r holl adroddiadau a gyflwynir i'r Panel gan swyddogion ac Estyn i'r sefydliad dan sylw cyn cyfarfod y Panel. Bydd y sefydliad yn cael cyfle i gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol ond nid y dadansoddiad na'r farn a fynegir.

3.28 Bydd y Panel yn cyfarfod o fewn deg wythnos ar ôl derbyn y cais (gan ddibynnu ar amseriad ymweliad Estyn). Bydd CCAUC yn ysgrifennu at y sefydliad i roi gwybod iddo am ddyddiad y cyfarfod.

3.29 Bydd CCAUC yn gofyn i'r Panel roi barn bendant am achrediad i'r Cyngor. Ond mewn achosion lle y mae'r Panel yn ystyried nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oherwydd tystiolaeth annigonol neu ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn sydd ar gael, gall ofyn am ragor o wybodaeth a dogfennaeth gan y sefydliad neu ofyn i Estyn gasglu tystiolaeth ychwanegol. Ni fydd y Panel yn cynnig ei gyngor terfynol i'r Cyngor hyd nes iddo ystyried y wybodaeth ychwanegol hon.

3.30 Gall y Panel wneud un o'r tri argymhelliad canlynol i'r Cyngor:

a) mae'r Panel yn credu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ei bod hi'n debygol y bodlonir meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer achredu pan gyflwynir y ddarpariaeth HCA, ac mae'n argymell achrediad dros dro;

b) nid yw'r Panel yn credu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, fod meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael neu y byddant yn cael eu bodloni'n llawn, ac mae'n argymell y dylid gwneud cais am dystiolaeth bellach i'w chyflwyno i'r Panel;

c) mae'r Panel yn sicr, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nad yw meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu bodloni, ac mae'n argymell na ddylid achredu'r sefydliad.

3.31 Bydd CCAUC yn ysgrifennu at y sefydliad i roi gwybod iddo am benderfyniad y Cyngor o fewn un wythnos ar ôl dyddiad cynnal cyfarfod y Cyngor. Gall y sefydliad gyflwyno sylwadau i'r Cyngor am y penderfyniad o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar lythyr y Cyngor.

Cadarnhau achrediad

3.32 Fel y nodwyd uchod, bydd CCAUC yn rhoi achrediad dros dro i'r sefydliad i ddechrau. Cyn rhoi achrediad llawn, bydd yn rhaid i Estyn arolygu'r ddarpariaeth o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl dechrau ei chynnig a bydd yn rhaid i CCAUC wneud archwiliad o reolaeth ac adnoddau ariannol. Bydd Estyn yn arolygu darpariaeth y darparwr yn erbyn meini prawf achredu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ôl gwneud ei arolygiad, bydd Estyn yn cyflwyno adroddiad i'r sefydliad dan sylw ac i CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys barn ynghylch a yw'r darparwr yn cydymffurfio â meini prawf achredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac argymhelliad ynghylch a ddylid cadarnhau'r achrediad.

3.33 Os yw Estyn yn dweud wrth CCAUC nad yw'n gallu argymell cadarnhau'r achrediad, bydd CCAUC yn ystyried a ddylid rhoi cyfle i'r darparwr fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio erbyn amser penodol. Fel arall, ni fydd achrediad yn cael ei gadarnhau a bydd CCAUC yn ysgrifennu at Bennaeth y sefydliad a Chadeirydd y Corff Llywodraethu o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r Cyngor wneud ei benderfyniad.

3.34 Ar ôl ei roi, nid yw achrediad llawn wedi'i gyfyngu gan amser. Ni fydd angen adnewyddu achrediad ac eithrio pan fydd CCAUC o'r farn bod newidiadau ym meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn am hynny neu pan fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn gwneud cais am ail-achredu ffurfiol.

3.35 Mae'r siart yn **Atodiad B** yn crynhoi'r gweithdrefnau ar gyfer achredu darparwyr newydd.

4 Cadarnhau bod y darparwyr HCA achrededig presennol yn cydymffurfio

4.1 Bydd eisiau sicrwydd ar CCAUC fod y darparwyr HCA achrededig presennol yn parhau i gydymffurfio â'r meini prawf a'u bod yn diwygio eu

cyrsiau a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion newydd wrth iddynt gael eu cyflwyno.

4.2 Bydd y sicrwydd hwn yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy gyfrwng proses arolygu Estyn. Bydd Estyn yn cynnwys yn ei adroddiadau arolygu ar ddarparwyr HCA farn ynghylch a yw'r sefydliad yn cydymffurfio ai peidio â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac, os oes diffyg cydymffurfio, bydd yn nodi'r gofynion nad yw'r sefydliad yn eu bodloni.

4.3 Mae'n bosibl y bydd CCAUC hefyd yn ystyried gwybodaeth o ffynonellau sefydliadol neu ffynonellau mewnol CCAUC eraill, er enghraifft, gwybodaeth am reolaeth ac iechyd ariannol, er mwyn cael sicrwydd o gydymffurfiad â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.4 O fewn Fframwaith Arolygu Cyffredin presennol Estyn, disgwylir y bydd unrhyw farn am gwestiwn allweddol unigol neu farn gyffredinol sydd ar Radd 4 (rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig) neu Radd 5 (llawer o ddiffygion pwysig) yn arwain yn awtomatig at y farn nad yw'r ddarpariaeth yn cydymffurfio. Ond mae'n bosibl y bydd Estyn yn darganfod agwedd(au) ar ddiffyg cydymffurfio o fewn Graddau 1 i 3 o'r fframwaith hefyd (gweler 5.8 isod).

4.5 I sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio, gall sefydliadau gyfeirio at y tabl yn **Atodiad C** sy'n cysylltu cwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5 Ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl

5.1 Er nad yw achrediad, ar ôl ei roi, wedi'i gyfyngu gan amser, gall gael ei dynnu'n ôl gan CCAUC os oes tystiolaeth nad yw'n cydymffurfio â meini prawf presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae achrediad yn cael ei dynnu'n ôl o'r sefydliad, nid y cwrs penodol lle y darganfuwyd diffyg cydymffurfio.

5.2 Hefyd, bydd CCAUC yn disgwyl tynnu achrediad yn ôl os bydd sefydliad yn rhoi'r gorau i ddarparu cyrsiau HCA.

5.3 Mae tynnu achrediad sefydliadol yn ôl yn golygu na all unrhyw hyfforddiant a gynigir gan y darparwr arwain at ennill SAC.

5.4 Yn yr adran hon nodir y gweithdrefnau y bydd CCAUC yn eu dilyn:

- os oes tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys lle y gall y diffyg cydymffurfio arwain at dynnu achrediad sefydliad fel darparwr HCA yn ôl;
- mewn amgylchiadau eraill lle y gall fod angen tynnu achrediad yn ôl.

5.5 Ym mhob cam, bydd swyddogion CCAUC yn rhoi gwybod i aelodau Cyngor CCAUC o'r hyn sy'n cael ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau hyn. Mae'r gweithdrefnau'n nodi'r camau penodol y bydd Cyngor CCAUC yn eu cymryd.

Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio

5.6 Fel rheol, byddai CCAUC yn disgwyl i dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru gael ei darganfod yn ystod arolygiadau o ddarpariaeth HCA gan Estyn.

5.7 Os bydd Estyn yn darganfod tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn ystod arolygiad, bydd yn ysgrifennu at CCAUC i'w hysbysu ei fod o'r farn nad yw agwedd(au) ar y ddarpariaeth yn cydymffurfio o fewn dwy wythnos waith ar ôl cwblhau'r arolygiad. Ni fydd y dyddiad hwn yn hwyrach na'r dyddiad y mae Estyn yn anfon yr adroddiad arolygu terfynol drafft at y darparwyr. Bydd llythyr Estyn yn nodi'r prif faterion sy'n peri pryder, y ddarpariaeth neu agweddau ar ddarpariaeth nad ydynt yn cydymffurfio, y maen prawf/meini prawf y mae'r diffyg cydymffurfio yn ymwneud ag ef/hwy, ac argymhellion ar gyfer gweithredu. (Sylwer: Mae Estyn yn anfon yr adroddiad drafft i'r darparwr i roi cyfle iddo gadarnhau bod y ffeithiau'n gywir ac i ystyried y casgliadau. Ni fydd canlyniadau'r adroddiad yn newid. Yna bydd Estyn yn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.)

5.8 Fel rheol, os bernir bod darpariaeth neu agwedd ar ddarpariaeth o dan y trothwy mewn un neu ragor o'r cwestiynau allweddol yn y fframwaith arolygu (gradd 4 (rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig) neu radd 5 (llawer o ddiffygion pwysig) ar hyn o bryd), bydd CCAUC yn ystyried bod hyn yn dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio. Ond mae'n bosibl hefyd y bydd Estyn yn darganfod agwedd(au) ar ddiffyg cydymffurfio mewn cwestiynau allweddol lle enillir graddau ar neu dros y trothwy. Mae'n bosibl nad yw'r diffygion hyn yn ddigon difrifol i ddyfarnu gradd 4 neu 5 mewn cwestiwn allweddol, ond byddai angen rhoi sylw iddynt serch hynny i sicrhau cydymffurfiad â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5.9 Gall CCAUC hefyd ystyried gwybodaeth o ffynonellau eraill - sefydliadol, mewnol CCAUC, allanol neu drydydd parti - fel tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio neu ddiffyg cydymffurfio posibl. Os yw CCAUC yn penderfynu bod angen ymchwilio i dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio posibl, bydd yn hysbysu'r sefydliad, gan ddweud wrtho a yw'n ymgynghori ag Estyn neu gyrff eraill, a chan roi cyfle i'r sefydliad ymateb. Os darganfyddir wedyn nad oes tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio, bydd CCAUC yn ysgrifennu at y sefydliad i gadarnhau bod ei statws achrededig

yn parhau. Os darganfyddir tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio, bydd y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfio a nodir isod yn cael eu dilyn.

Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfio

5.10 Os oes tystiolaeth nad yw'r ddarpariaeth neu agweddau ar y ddarpariaeth yn cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA, nod CCAUC fyddai sicrhau bod y darparwr yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion dan sylw o fewn amserlen benodedig er mwyn i CCAUC allu cadarnhau achrediad y sefydliad. Serch hynny, mae cyfrifoldeb ar CCAUC i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a bod anghenion hyfforddeion yn cael eu diwallu. Felly mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle y bydd CCAUC, yn dilyn trafodaethau â'r darparwr, yn cymryd camau i dynnu achrediad sefydliadol y darparwr yn ôl.

5.11 Bydd CCAUC yn ysgrifennu at y darparwr i roi gwybod iddo fod ganddo dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio ac, o ganlyniad, fod ei weithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad sefydliadol yn ôl yn dod i rym. Bydd y llythyr yn nodi'r prif faterion sy'n peri pryder, y ddarpariaeth neu agweddau ar ddarpariaeth nad ydynt yn cydymffurfio, y maen prawf/meini prawf y mae'r diffyg cydymffurfio yn ymwneud ag ef/hwy, ac argymhellion Estyn ar gyfer gweithredu os ydynt ar gael.

5.12 Bydd CCAUC yn gofyn bod y sefydliad, o fewn un mis calendr i ddyddiad y llythyr hwn, yn cyflwyno cynllun gweithredu ac amserlen i CCAUC ac Estyn i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt a sicrhau cydymffurfiad. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn ymdrin yn benodol â'r materion diffyg cydymffurfio a nodwyd ac mae'n ofynnol fel rhan o weithdrefnau CCAUC ar ddiffyg cydymffurfio.

5.13 Fel rhan o'i weithdrefnau arolygu arferol, bydd Estyn yn gofyn i'r sefydliad ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodir yn yr arolygiad, gan gynnwys materion diffyg cydymffurfio. Yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd y sefydliad yn paratoi un cynllun gweithredu ond gyda rhannau ar wahân, fel bod CCAUC yn derbyn y rhan yn ymwneud â materion diffyg cydymffurfio a bod Estyn yn derbyn y cynllun gweithredu cyfan.

5.14 Os yw Estyn eisoes wedi dweud wrth y darparwr bod ganddo bryderon sylweddol ynghylch diffyg cydymffurfio gwirioneddol neu debygol, mae'n debyg y bydd y darparwr wedi dechrau gweithredu cyn i CCAUC dderbyn adroddiad terfynol Estyn. Byddai CCAUC yn annog hyn. Pan gyflwynir y cynllun gweithredu i Estyn a CCAUC, gall y darparwr fanylu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes a chanlyniadau unrhyw fonitro neu werthuso.

5.15 Ar ôl derbyn y cynllun gweithredu drafft, trefnir cyfarfod ar y cyd rhwng y darparwr, Estyn a CCAUC i drafod a chytuno ar y cynllun gweithredu arfaethedig. Bydd Estyn a CCAUC yn rhoi eu barn ynghylch a yw'r mesurau a gynigir yn y cynllun yn briodol neu a oes angen eu newid. Cytunir ar ddyddiad ar gyfer cyflwyno cynllun gweithredu diwygiedig os oes angen.

5.16 Cytunir ar amserlen ar gyfer gwneud arolygiad arall a chadarnhau cydymffurfiad. Dylai'r ail arolygiad hwn gael ei gwblhau gan Estyn o fewn blwyddyn ar ôl y dyddiad ar y llythyr gwreiddiol gan CCAUC sy'n hysbysu'r darparwr nad yw'n cydymffurfio, ond gellir estyn y cyfnod hwn i 18 mis ar y mwyaf os yw CCAUC, gyda chyngor Estyn, yn ystyried bod hyn yn briodol.

5.17 Bydd CCAUC yn ysgrifennu at y darparwr i gadarnhau canlyniadau'r cyfarfod o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod. Bydd hyn yn cynnwys, fel y bo'n briodol, cadarnhad o'r ffaith bod CCAUC yn cytuno'n ffurfiol â'r cynllun gweithredu neu'r dyddiad ar gyfer cyflwyno cynllun gweithredu diwygiedig. Os yw cynllun gweithredu diwygiedig yn cael ei gyflwyno, bydd CCAUC wedyn yn cadarnhau mewn ysgrifen a yw'n cytuno â'r cynllun hwn.

5.18 Gan ddibynnu ar natur y diffyg cydymffurfio, gellir disgwyl i'r amserlen ar gyfer ail arolygiad gynnwys ymweliad neu ymweliadau cynnydd interim gan Estyn ac adroddiadau ar gynnydd gan y darparwr, yn ogystal ag ail arolygiad terfynol. Bydd Estyn yn anfon adroddiad i CCAUC a'r darparwr yn dilyn unrhyw ymweliad interim. Bydd CCAUC yn ystyried, mewn trafodaethau gydag Estyn, a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach yng ngoleuni adroddiad(au) interim Estyn a'r darparwr. Yna bydd yn trafod ac yn cytuno ar unrhyw gamau o'r fath gyda'r darparwr.

Sylwer: Bydd unrhyw niferoedd myfyrwyr a ddyrennir yn ystod y cyfnod hwn yn amodol ar weithredu'n llwyddiannus y cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

5.19 Yn amodol ar gynnydd interim boddhaol, ac os yw Estyn yn cadarnhau, yn dilyn yr ail arolygiad terfynol, fod y cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus a bod y darparwr yn cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ac y gellir disgwyl iddo barhau i wneud hynny yn y dyfodol, bydd CCAUC yn ysgrifennu at y darparwr i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio ac i achredu'r sefydliad.

5.20 Os bydd Estyn yn penderfynu, yn ôl yr amserlen y cytunwyd arni, fod y ddarpariaeth yn methu o hyd â chydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd CCAUC yn rhoi gweithdrefnau ar waith i dynnu achrediad y sefydliad yn ôl.

Gweithdrefnau ar gyfer tynnu achrediad yn ôl o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiad â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer HCA

Argymhelliad i dynnu achrediad yn ôl

5.21 Os bydd swyddogion CCAUC yn penderfynu gwneud argymhelliad i'r Cyngor i dynnu achrediad sefydliadol y darparwr ar gyfer HCA yn ôl, byddant yn rhoi gwybod i'r darparwr, gan roi dyddiad cyfarfod y Cyngor pryd yr ystyrir y mater. Bydd y darparwr yn cael cyfle i baratoi datganiad i'w ystyried gan y Cyngor yn y cyfarfod. Rhaid derbyn y datganiad hwn 10 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Cyngor.

5.22 Bydd y Cyngor yn ystyried yr argymhelliad, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddatganiad a gyflwynir gan y darparwr, cyn gwneud penderfyniad. Bydd CCAUC yn hysbysu'r darparwr o benderfyniad y Cyngor o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod y Cyngor. Gofynnir i'r darparwr gydnabod ei fod wedi derbyn llythyr CCAUC o fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar y llythyr.

Cais i ailystyried

5.23 Os bydd y Cyngor yn penderfynu y dylid tynnu achrediad yn ôl, gall y darparwr wneud cais i'r Cyngor i ailystyried ei benderfyniad. Rhaid cyfeirio'r cais hwn at y Prif Weithredwr a rhaid i CCAUC ei dderbyn o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar lythyr CCAUC sy'n hysbysu'r darparwr o'r penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl. Rhaid anfon y cais drwy bost cofrestredig.

5.24 Ni fydd CCAUC yn talu am gostau'r darparwr mewn perthynas â'i gais i'r Cyngor i ailystyried ei benderfyniad.

5.25 Gall y darparwr ofyn i'r Cyngor ailystyried ar y seiliau canlynol:

i) roedd afreoleidd-dra o bwys yn y gweithdrefnau a ddilynwyd gan CCAUC; a/neu

ii) mae gan y darparwr wybodaeth newydd am gydymffurfiad ei ddarpariaeth â'r meini prawf nad oedd ar gael i CCAUC ar yr adeg y gwnaeth ei benderfyniad.

5.26 Bydd CCAUC yn cydnabod derbyn y cais i ailystyried o fewn pum diwrnod ar ôl ei dderbyn. Bydd y Prif Weithredwr, neu aelod o'r staff uwch a enwebwyd gan y Prif Weithredwr, yn penderfynu a ddylid derbyn y cais i ailystyried. Bydd CCAUC yn hysbysu'r darparwr o'r penderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais.

5.27 Os gwrthodir y cais, gall y darparwr apelio mewn ysgrifen at Gadeirydd CCAUC o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar y llythyr sy'n gwrthod y cais. Mae penderfyniad Cadeirydd CCAUC yn derfynol a, gan ddibynnu ar ba bryd y mae'r Cadeirydd ar gael, caiff ei gyfleu i'r darparwr o fewn 10 diwrnod gwaith. Rhoddir gwybod i'r darparwr os nad oes modd cadw at yr amserlen hon.

Y broses ailystyried

5.28 Os bydd y cais i ailystyried yn cael ei dderbyn, bydd CCAUC yn sefydlu panel i ystyried y cais. Bydd aelod o'r Cyngor yn cadeirio'r panel a fydd yn cynnwys un aelod arall o'r Cyngor ac aelod annibynnol. Bydd y panel yn cyfarfod fel rheol o fewn chwe wythnos ar ôl y dyddiad y rhoddodd CCAUC wybod i'r darparwr fod y cais i ailystyried wedi cael ei dderbyn. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r darparwr pwy yw aelodau'r panel o leiaf 15 diwrnod cyn y cyfarfod.

5.29 Gall y darparwr enwebu hyd at dair o bobl i'w gynrychioli yn y cyfarfod. Bydd gofyn i swyddogion CCAUC a'r darparwr gyflwyno eu hachosion unigol i'r panel mewn ysgrifen, a bydd gofyn i'r naill anfon copi i'r llall, 15 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

5.30 Gall y darparwr a swyddogion CCAUC gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennaeth ychwanegol i'w hystyried yn y cyfarfod. Rhaid i hyn gael ei anfon i'r panel ac i'r ochr arall saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

5.31 Darperir yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfod gan glerc Cyngor CCAUC, neu swyddog arall a enwebir gan y Prif Weithredwr nad yw'n un o'r swyddogion sy'n cyflwyno achos CCAUC i'r panel.

5.32 Yn y cyfarfod:

- Bydd y Cadeirydd yn nodi pwrpas y cyfarfod;
- Bydd prif gynrychiolydd CCAUC yn amlinellu'r rheswm dros y penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl a bydd prif gynrychiolydd y darparwr yn amlinellu'r rheswm dros ei gais i CCAUC i ailystyried ei benderfyniad;
- Bydd y panel yn holi swyddogion CCAUC a chynrychiolwyr y darparwr am y wybodaeth a gyflwynwyd;
- Bydd y darparwr yn cael cyfle i geisio eglurhad am y broses neu'r wybodaeth a gyflwynwyd;
- Bydd prif gynrychiolwyr CCAUC a'r darparwr yn cael cyfle i grynhoi eu hachos;

- Yna bydd holl swyddogion CCAUC, heblaw am y swyddog sy'n darparu'r gwasanaeth ysgrifenyddol, a chynrychiolwyr y darparwr yn gadael y cyfarfod.

5.33 Bydd y panel yn ystyried ei argymhelliad. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gofnodi a'i adrodd i Gyngor CCAUC a fydd wedyn yn penderfynu a ddylai gadarnhau neu ddiddymu'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd CCAUC yn hysbysu'r darparwr mewn ysgrifen o benderfyniad y Cyngor o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddo wneud ei benderfyniad. Os bydd y Cyngor yn penderfynu na ddylid tynnu'r achrediad yn ôl, bydd CCAUC yn trafod â'r darparwr ac yn ysgrifennu ato i gadarnhau unrhyw gamau pellach y bydd angen eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol.

Tynnu achrediad yn ôl

Ni dderbynnir cais i ailystyried

5.34 Os na dderbynnir cais i ailystyried penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl erbyn yr amser a bennwyd, bydd CCAUC yn ysgrifennu at Bennaeth y sefydliad a Chadeirydd y Corff Llywodraethu, o fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r Cyngor wneud ei benderfyniad, i gadarnhau y bydd CCAUC yn tynnu achrediad sefydliadol fel darparwr HCA yn ôl a chan roi'r dyddiad y daw hyn i rym.

Gwrthod cais i ailystyried

5.35 Mae paragraffau 5.26 a 5.27 yn rhoi'r amserlenni ar gyfer hysbysu darparwyr o benderfyniadau CCAUC. Yn ogystal â'r hysbysiadau hyn, os bydd CCAUC yn gwrthod cais i ailystyried ei benderfyniad, bydd yn ysgrifennu at Bennaeth y sefydliad a Chadeirydd y Corff Llywodraethu, o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod y Cyngor lle y cofnodir y penderfyniad hwn yn ffurfiol, i gadarnhau y bydd CCAUC yn tynnu achrediad sefydliadol fel darparwr HCA yn ôl a chan roi'r dyddiad y daw hyn i rym.

Cadarnhau penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl wedi ailystyried

5.36 Ym mharagraff 5.33 nodir yr amserlen ar gyfer hysbysu'r sefydliad o benderfyniad CCAUC wedi iddo ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol i dynnu achrediad yn ôl. Yn ogystal â'r hysbysiad hwn, os yw CCAUC wedi cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol, bydd yn ysgrifennu at Bennaeth y sefydliad a Chadeirydd y Corff Llywodraethu, o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i Gyngor CCAUC wneud ei benderfyniad, i gadarnhau y bydd CCAUC yn tynnu'n ôl achrediad sefydliadol fel darparwr HCA a chan roi'r dyddiad y daw hyn i rym.

Tynnu achrediad yn ôl am resymau eraill

5.37 Os bydd darparwr yn penderfynu neu'n cytuno i beidio â darparu HCA am resymau heblaw am ddiffyg cydymffurfio, bydd CCAUC yn dod i gytundeb â'r darparwr ar amserlen ar gyfer hyn, yn amodol, fel isod, ar gynnal trafodaethau â'r darparwr i sicrhau y diogelir buddiannau'r myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr. Hefyd bydd CCAUC yn ysgrifennu at Gadeirydd Corff Llywodraethu'r sefydliad i roi gwybod iddo y bydd CCAUC yn tynnu'n ôl achrediad sefydliadol fel darparwr HCA a chan roi'r dyddiad y daw hyn i rym.

Diogelu buddiannau'r myfyrwyr

5.38 Os penderfynir tynnu achrediad yn ôl, bydd CCAUC yn trafod â'r darparwr mor fuan â phosibl y camau i'w cymryd i ddiogelu buddiannau'r myfyrwyr, gan gynnwys gwneud trefniadau eraill i'r myfyrwyr presennol gwblhau eu hyfforddiant ac, os oes angen, gwneud trefniadau ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes wedi cael cynnig neu wedi derbyn lleoedd ar gwrs.

5.39 Mae'r siart yn **Atodiad D** yn crynhoi'r gweithdrefnau ar gyfer tynnu achrediad yn ôl.

Atodiad A: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon

R1: Gofynion mynediad[2]

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R1.1 fod wedi'i fodloni bod gan yr holl ymgeiswyr i gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon y gallu i ddiwallu'r Safonau Statws Athro Cymwysedig gofynnol erbyn diwedd eu cyrsiau a'u bod yn meddu ar nodweddion personol a deallusol addas i fod yn athrawon;

R1.2 sicrhau bod gan bob ymgeisydd safon gywerth â gradd C mewn arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg;

R1.3 sicrhau bod yr holl ymgeiswyr sy'n mynd mewn i hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cael safon gywerth â gradd C mewn arholiad TGAU pwnc gwyddoniaeth;

R1.4 sicrhau bod pob ymgeisydd wedi diwallu gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu[3];

R1.5 gofalu bod cyfundrefnau wedi cael eu sefydlu i geisio cael gwybodaeth i ganfod a oes gan yr ymgeiswyr gefndir troseddol a all eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bersonau ifanc; a sicrhau nad yw'r ymgeiswyr wedi cael eu gwahardd yn flaenorol rhag addysgu neu weithio gyda phlant;

R1.6 wedi'u bodloni y gall yr holl ymgeiswyr ddarllen yn effeithiol, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig;

R1.7 mewn achos cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i raddedigion, gofalu bod gan ymgeiswyr radd gyntaf o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cywerth[4];

R1.8 fel rhan o'r gweithdrefnau dewis, sicrhau bod yr holl ymgeiswyr a dderbynnir i hyfforddi wedi cymryd rhan mewn cyfweliad grŵp neu gyfweliad unigol.

---

[2] Mae'r gofynion mynediad a dethol hyfforddeion yn safonau gofynnol. Efallai bod gan sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Unigol feini prawf ychwanegol y maent eisiau eu defnyddio a gallant wneud hynny cyn belled â bod y safonau gofynnol yn cael eu cyflawni.

[3] Adeg cyhoeddi, yr oedd manylion y gofynion yn y Rheoliadau Safonau Iechyd Addysg (Cymru) 2004 a'r Ddogfen Wybodaeth 036/04.

[4] Bydd raid i ymgeiswyr gyda Gradd Sylfaen ychwanegu at y cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd at Lefel 3 Addysg Uwch.

R2: Hyfforddi ac asesu

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R2.1 gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant i alluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos bod ganddynt Safonau Statws Athro Cymwysedig;

R2.2 gofalu bod cyflawniad athrawon dan hyfforddiant yn ôl Safonau Statws Athro Cymwysedig yn cael ei asesu'n rheolaidd ac yn gywir, a bod y darparwr wedi'i fodloni bod pob athro dan hyfforddiant wedi cael ei asesu yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwysedig ac wedi cwrdd â'r Safonau hynny cyn cadarnhau i'r corff priodol[5] y gellid eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig;

R2.3 gofalu bod hyfforddiant yn rhoi ystyriaeth i anghenion hyfforddi unigol;

R2.4 paratoi pob athro dan hyfforddiant i ddysgu ar draws o leiaf dau Gyfnod Allweddol dilynol[6];

R2.5 gofalu bod athrawon dan hyfforddiant yn treulio o leiaf y cyfnod a nodir yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, gan gydnabod y gall profiad blaenorol athro dan hyfforddiant o weithio gyda disgyblion gyfrif at gyfanswm y cyfnodau hyn, yn ôl disgresiwn y darparwr:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd pedair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd dwy a thair blynedd
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen uwchradd a Chyfnodau Allweddol 2/3 i raddedigion
- 18 wythnos ar gyfer pob rhaglen gynradd i raddedigion.

Mae'n rhaid i bob athro dan hyfforddiant gael profiad mewn o leiaf dwy ysgol. Gellir cwblhau amser mewn ysgolion yn rhan amser er mwyn cyflawni cyfanswm y cywerth amser llawn uchod. Gall addysgu mewn sefydliadau ar wahân i ysgolion hefyd gyfrif at y cyfanswm cyn belled â'u bod yn galluogi hyfforddeion i weithio tuag at gyflawni Safonau Statws Athro Cymwysedig;

---

[5] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Hefyd gall Llywodraeth Cynulliad Cymru hysbysu personau eu bod yn athrawon cymwysedig ond mae wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor iddo ddelio â phob achos ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

[6] At ddiben y Gofyniad hwn, mae "dau gyfnod allweddol" yn cynnwys cyrsiau sy'n cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen yn unig; cyrsiau sy'n cwmpasu Cyfnod Allweddol 2 yn unig; a chysriau sy'n cwmpasu'r ystod oedran 14-19 (Cyfnod Allweddol 4 a 16-19)

R2.6 sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn cwrdd â'r Safonau Statws Athro Cymwysedig yn cael Proffil Dechrau a Datblygu Gyrfa ac yn cael cymorth i'w gwblhau, a'u bod yn cael gwybod am y trefniadau statudol ar gyfer sefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso ac yn cael cymorth i baratoi ar eu cyfer;
R2.7 gofalu bod myfyrwyr yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ynglŷn ag amddiffyn plant, gan gynnwys adroddiad 'Clywch' Comisiynydd Plant Cymru am gam-drin plant; bod cyrsiau hyfforddi yn cynnwys ymwybyddiaeth am y ffordd y gall camdrinwyr weithredu; a bod casgliadau adroddiad 'Clywch' yn ffurfio rhan o gyrsiau hyfforddi.

R3: Rheoli Partneriaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R3.1 weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chael yr ysgolion i gymryd rhan weithredol mewn:

- cynllunio a darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
- dewis athrawon dan hyfforddiant
- asesu athrawon dan hyfforddiant ar gyfer Statws Athro Cymwysedig;

R3.2 sefydlu cytundebau partneriaeth sy'n:-

- egluro rôl a chyfrifoldebau pob partner i bawb sy'n gysylltiedig
- nodi trefniadau ar gyfer paratoi a chefnogi'r holl staff sy'n ymwneud â hyfforddi
- ei gwneud yn glir sut mae adnoddau yn cael eu rhannu a'u dyrannu rhwng y partneriaid;

R3.3 sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol, a bod yr hyfforddiant wedi ei gyd-gysylltu a'i fod yn gyson, gyda pharhad ar draws y gwahanol gyd-destunau lle cynhelir yr hyfforddiant.

R4: Sicrhau ansawdd

Mae'n rhaid i bob darparwr:

R4.1 ofalu bod ei ddarpariaeth yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon;

R4.2 gofalu bod gan athrawon dan hyfforddiant fynediad at lyfrau, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac adnoddau eraill sydd eu hangen arnynt – sy'n berthnasol i'r ystod oed a'r pynciau y maent yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer –

sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yr athrawon dan hyfforddiant at o leiaf y Safonau Statws Athro Cymwysedig;

R4.3 sicrhau bod gweithdrefnau safoni trwyadl mewnol ac annibynnol allanol wedi eu sefydlu i sicrhau bod asesiadau yn gywir ac yn ddibynadwy;

R4.4 sicrhau bod materion ynglŷn ag ansawdd a godwyd drwy safoni mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio ac yn cael sylw i wella'r hyfforddiant;

R4.5 monitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth, mewn ffordd systematig, er mwyn gwella ei hansawdd ac er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Dylid sefydlu systemau i:

- ganfod targedau ar gyfer gwella
- adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn
- nodi'r camau sydd raid eu gweithredu i sicrhau gwelliannau
- sicrhau y gweithredir yn ôl yr hyn a nodwyd, a bod hynny'n arwain at welliant;

R4.6 os ydynt yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd, meincnodi eu perfformiad dros amser, ac mewn cymhariaeth â darparwyr tebyg, gan ddefnyddio tystiolaeth a gynhyrchwyd yn allanol ac yn fewnol i fod yn sail wybodaeth i osod targedau a chynllunio ar gyfer gwella.

Atodiad B: Achredu Darparwyr Newydd



Atodiad C: Cysylltu cwestiynau allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin (FAC) Estyn â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer achredu HCA

Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar saith cwestiwn allweddol sy'n berthnasol i'r darparwr yn gyffredinol, yn ogastal a bod yn berthnasol i agweddau o'i waith megismeysydd dysgu, pynciau, cyrsiau, rhaglenni a meysydd galwedigaethol.

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyforddi a'r asesu?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfanu ac yn gwella ansawdd a safonau?
Cwestiwn Allweddol 7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Meini Prawf		**Estyn FAC Cwestiynau Allweddol**
(I) Eu bod yn diwallu'n llawn (neu y byddant yn diwallu'n llawn) y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau HCA fel y'u nodwyd yn Atodiad A, yn arbennig:	(a) bod hyfforddeion yn diwallu'r gofynion i gael mynediad i gwrs HCA a nodir yn R1 o Atodiad A;	CA 3
	(b) bod holl agweddau'r hyfforddi a'r asesu yn diwallu'r gofynion a nodir yn R2 o Atodiad A;	CA 3
	(c) bod yr hyfforddiant yn seiliedig ar bartneriaeth gref gydag ysgolion;	Cau 3,4
	(d) bod yr holl ofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a nodir yn R4 o Atodiad A yn cael eu diwallu.	CA 6
(II) Eu bod yn cynnig (neu y byddant yn cynnig) hyfforddiant a fydd yn galluogi myfyrwyr i gyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer SAC, yn arbennig:	(a) bod cynnwys y rhaglen hyfforddi yn cyfateb yn agos â'r safonau gofynnol ar gyfer SAC; a	CA 3
	(b) bod myfyrwyr yn cael eu hasesu'n drwyadl yn erbyn pob un o'r safonau gofynnol ar gyfer SAC.	Cau 2,3,6

(III) Eu bod yn darparu (neu y byddant yn darparu) hyfforddiant o ansawdd uchel ac yn sicrhau gwelliant parhaus drwy ddangos:	(a) bod arbenigedd wedi'i brofi mewn HCA ymhlith yr ysgolion a fydd yn gysylltiedig;	CA 3
	(b) bod pawb sy'n gysylltiedig yn gwbl ymroddedig i hyfforddiant o ansawdd uchel;	Cau 3,6
	(c) bod pob agwedd o'r rhaglen hyfforddi yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn drwyadl; a	Cau 2,6
	(d) bod canlyniadau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio'n systematig er mwyn sicrhau gwelliannau.	CA 6
(IV) Eu bod yn dangos sail resymegol sy'n argyhoeddi ar gyfer darparu HCA sy'n:	(a) diwallu angen a ddynodir (gan roi ystyriaeth i amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA mewn ardal ddaearyddol ar gyfer ystod oed arbennig a/neu'n	CA 3
	(b) diwallu angen a ddynodir (gan roi ystyriaeth i amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA ar gyfer pynciau arbennig neu arbenigedd oed/cyfnod; a/neu'n	CA 3
	(c) cefnogi neu'n ychwanegu at yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael neu'n denu ceisiadau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y proffesiwn dysgu.	CA 3
(V) Eu bod yn dangos strwythur rheoli a fydd yn sicrhau gweithrediad llyfn y rhaglen hyfforddi, yn arbennig:	(a) bod rolau unigolion a swyddogaethau grwpiau a phwyllgorau yn cael eu diffinio'n glir ar hyd a lled y bartneriaeth hyfforddi;	CA 5
	(b) y dewisir staff sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol;	CA 7
	(c) bod cynlluniau datblygu staff ar gyfer pawb sy'n cyfrannu i'r hyfforddiant; a	Cau 5,7
	(d) bod gan fyfyrwyr ystafelloedd, cyfleusterau ac adnoddau addas.	CA 7
(VI) Eu bod yn hyfyw yn ariannol (neu'n gallu dangos y byddant yn hyfyw yn ariannol) a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau manwl ar gyfer rheolaeth ariannol, yn arbennig:	(d) bod darpariaethau ar gyfer rheoli cyllid yn gadarn ac yn effeithlon;	
	(e) bod cyfrifoldebau ar gyfer gwahanol swyddogaethau wedi'u nodi, gyda llinellau atebolrwydd clir; a	
	(f) bod gweithdrefnau'n sicrhau y ceir gwerth gorau o ran gwario cyllid CCAUC.	CA 7

Atodiad D: Tynnu achrediad yn ôl: Crynodeb o'r gweithdrefnau

Argymhelliad i dynnu achrediad yn ôl



Cais i ailystyried



Y broses ailystyried